



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Brechiad niwmococol ar gyfer plant dan ddwy flwydd oed



**Mae'r daflen yma'n dweud
wrthyh chi am haint niwmococol
a'r brechiad niwmococol ar gyfer
babanod sydd wedi'u geni ar neu
ar ôl 1 Ionawr 2020**



Beth yw haint niwmococol?

Mae haint niwmococol yn un o achosion mwyaf cyffredin llid yr ymennydd (haint ar leinin yr ymennydd). Mae hefyd yn achosi haint ar y glust (otitis media), niwmonia (haint ar yr ysgyfaint) a sawl salwch difrifol arall. Mae'r brechiad niwmococol (ei enw yw PCV) yn cael ei roi i blant ac mae'n darparu gwarchodaeth dda rhag haint niwmococol. Mae hyd at 60% o blant yn cario bacteria niwmococol yng nghefn eu trwyn a'u gwddw. Maent yn pasio'r bacteria yma'n hawdd i eraill drwy besychu, tisian neu gyswllt agos.

Nid yw'r brechiad hwn yn gwarchod rhag llid yr ymennydd sy'n cael ei achosi gan facteria neu firysau eraill, felly mae'n bwysig o hyd eich bod yn gwybod am yr arwyddion a'r symptomau i gadw llygad amdanynt:

Babanod a Phlant Bach



Tymheredd uchel, dwylo a thraed oer



Gwrthod bwyd a thafu i fyny



Cwynfanllyd, ddim yn hoffi cael eu trin



Cysglyd, llipa, ddim yn ymateb



Anadlu'n gyflym neu rochian



Croen gwelw, rhannau coch Smotiau/brech



Crio'n anarferol, griddfan



Y ffontanél (man meddal) yn dynn ac wedi chwyddo



Gwddw stiff, ddim yn hoffi golau llachar



Ffitiau

© Meningitis Now

Beth ddylwn i ei wneud os wyf yn amau llid yr ymennydd?

Mae'r arwyddion a'r symptomau uchod yn gallu ymddangos mewn unrhyw drefn, ac efallai na fydd rhai'n ymddangos o gwbl. Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth am iechyd eich plentyn, dilynwch eich greddf a chael cymorth meddygol ar frys. Os nad ydych yn gallu cysylltu â'ch meddyg, ewch â'ch plentyn i adran frys yr ysbyty agosaf.

Y prawf 'gwydr'

Mae brech nad yw'n pylu o dan bwysau yn arwydd o septisemia meningococol. Pwyswch ochr gwydr yfed yn gadarn yn erbyn y croen i weld a yw'r frech yn pylu ac yn colli ei lliw dan bwysau.



© Meningitis Now

Ar groen tywyll, gall y smotiau/frech fod yn fwy anodd eu gweld.

Pryd mae'r Brechiad Niwmococol (PCV) yn cael ei gynnig?

Mae plant yn cael cynnig y brechiad niwmococol ochr yn ochr â brechiadau rheolaidd eraill plentyndod pan maent yn dri mis oed ac eto yn 12 i 13 mis oed, i sicrhau gwarchodaeth yn y tymor hir.

Sut byddaf yn gwybod ei bod yn amser am frechiadau fy mhlentyn?

Mae plant yn derbyn apwyntiad i fynd i gael eu brechiad niwmococol (PCV) pan maent wedi cyrraedd yr oedran priodol. Mae'r rhan fwyaf o feddygfeydd a chanolfannau iechyd yn cynnal clinigau babanod neu imiwneiddio arbennig.

Beth sy'n digwydd yn yr apwyntiad?

Bydd y nyrs neu'r meddyg yn esbonio'r brechiadau ac yn ateb eich cwestiynau. Mae babanod yn cael y brechiad yn y glun. Mae plant dros 12 oed yn cael pigiadau yn rhan uchaf y fraich fel rheol.

Oes posib rhoi'r brechiad os yw fy mhlentyn yn sâl ar ddiwrnod yr apwyntiad?

Os oes gan blentyn fân salwch heb dymheredd uchel, fel annwyd, dylai gael y brechiad fel arfer. Os yw plentyn yn sâl gyda thymheredd uchel ar ddiwrnod rhoi'r brechiad, rhaid oedi nes ei fod yn well.

Oes unrhyw blant na ddylai gael y brechiad?

Ychydig o resymau sydd dros beidio ag imiwneiddio plant. Ni ddylid rhoi'r brechiad niwmococol i blant sydd wedi cael adwaith difrifol (peryglu bywyd) i ddos blaenorol o'r brechiad neu unrhyw gynhwysyn yn y brechiad.

Os oes gan eich plentyn:

- anhwylder gwaedu (er enghraifft haemoffilia, lle nad yw gwaed y plentyn yn ceulo yn iawn), neu
- os yw wedi cael ffit yn gysylltiedig â thymheredd uchel

Siaradwch gyda'ch meddyg, nyrs y feddygfa neu'r ymwelydd iechyd cyn imiwneiddio eich plentyn.




Beth os byddaf yn colli'r apwyntiad?

Dylech ganslo apwyntiad ymlaen llaw os nad ydych yn gallu cyrraedd. Os byddwch yn methu apwyntiad neu'n gorfod oedi gyda'r brechiad, gwnewch apwyntiad newydd cyn gynted â phosib. Os yw eich plentyn dan ddwy flwydd oed, mae posib rhoi'r brechiad niwmococol o hyd, ond bydd eich plentyn heb warchodaeth am gyfnod hirach.

Cofiwch, mae'n bwysig cael unrhyw frechiad sydd wedi'i gollu. Os yw eich plentyn wedi colli brechiad ac os yw'n hŷn na'r oedran a argymhellir, siaradwch gyda'ch meddygfa, y nyrs yno neu'r ymwelydd iechyd.

Oes gan y brechiad sgil-effeithiau?

Mae miliynau o ddosys o'r brechiad wedi cael eu defnyddio ac mae ganddo enw da am ddiogelwch. Weithiau gall plant gael coes neu fraich ddolurus lle rhoddwyd y pigiad. Bydd rhai'n datblygu lwmp bychan efallai lle rhoddwyd y nodwydd i mewn ac mae hyn yn normal a gall bara rhai wythnosau. Nid oes angen unrhyw driniaeth. Hefyd efallai y bydd plant yn cael tymheredd uchel dros 37.5°C, gallant fod yn anesmwyth ac efallai na fyddant eisiau bwyta llawer.



Os oes gan eich plentyn dymheredd uchel ac os yw'n ymddangos yn sâl, mae posib rhoi hylif paracetamol iddo. Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y botel yn ofalus a rhoi'r dos a'r cryfder cywir i'ch plentyn ar gyfer ei oedran.

Os ydych yn bryderus am eich plentyn ar ôl y brechiad, dylech siarad â'ch ymwelydd iechyd, y meddyg neu nyrs y feddygfa neu ffonio Galw Iechyd Cymru ar **0845 46 47** neu **111** os yw'r gwasanaeth hwn ar gael yn eich ardal chi neu ewch i **www.nhsdirect.wales.nhs.uk/LiveWell/Vaccinations**

Gallwch roi gwybod am sgil-ffeithiau brechiadau a meddyginiaethau gan ddefnyddio'r cynllun Cerdyn Melyn. Gellir gwneud hyn drwy fynd i **yellowcard.mhra.gov.uk** neu drwy ffonio llinell am ddim y Cerdyn Melyn ar **0808 731 6789** (Llun - Gwener, 10am i 2pm).

Ble mae cael mwy o wybodaeth?

Mae mwy o wybodaeth am y brechiadau sy'n cael eu defnyddio, a'u cynnwys a'r sgil-ffeithiau posib, ar gael yn www.medicines.org.uk/emc/ drwy nodi enw'r brechiad yn y bocs chwilio ac edrych ar y daflen wybodaeth i gleifion (PIL). Y brechiad sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yw Prevenar 13.

Mae'r amserlen frechu reolaidd sy'n dangos i chi pa frechiadau sy'n cael eu cynnig yng Nghymru ar gael yn: www.nhsdirect.wales.nhs.uk/livewell/vaccinations/Leaflets/

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth, siaradwch gyda'ch meddyg neu eich nyrs neu ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar **0845 46 47** neu **111** os yw ar gael yn eich ardal chi, neu ewch i www.nhsdirect.wales.nhs.uk/LiveWell/Vaccinations

I archebu mwy o gopiâu o'r daflen yma, ewch i www.iechydcyhoedduscymru.org/adnoddau-gwybodaeth-iechyd